Bwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Dydd Mawrth, 13 Rhagfyr 2011
2.30 – 4.30

Rhwydwaith Fideo Gynadledda

Yn bresennol:

Cyfarwyddwyr:	Yr Athro R.Merfyn Jones (Cadeirydd) Yr Athro Medwin Hughes, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch Yr Athro Aled Jones, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch Yr Athro Hywel Thomas, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch Wyn Thomas, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch Geraint James, Cyfarwyddwr Annibynnol Ian Rees, Cyfarwyddwr Annibynnol Linda Wyn, Cyfarwyddwr Annibynnol Luke Young, Cyfarwyddwr yn cynrychioli Myfyrwyr
Swyddogion:	Dr Ioan Matthews, Prif Weithredwr y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (IM) Dr Gwennan Schiavone, Ysgrifennydd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (GS) Dr Dafydd Trystan, Rheolwr Datblygu y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (DT)
Sylwedyddion:	Dr Alison Allan, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC/HEFCW)
Ymddiheuriadau:	Jacqui Hare, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch Helen Marshall, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch Gareth Pierce, Cyfarwyddwr Annibynnol Dr Hefin Jones, Cyfarwyddwr yn cynrychioli Staff Academaidd Lisa Newberry, Addysg Uwch Cymru (Sylwedydd)

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
1 Sylwadau Agoriadol a Datganiadau o ddiddordeb	1.1. Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd. 1.2. Gwahoddwyd y cyfarwyddwyr i nodi unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb mewn perthynas â'r eitemau ar yr agenda. 1.2.1. Nodwyd diddordeb y pedwar cyfarwyddwr o'r sector addysg uwch a oedd yn bresennol yn y cyfarfod (Yr Athro Aled Jones, Yr Athro Medwin Hughes, Yr Athro Hywel Thomas, a Wyn Thomas) yn yr argymhellion ar ddyfarniadau a oedd i'w hystyried o dan Eitem 7. Cadarnhawyd na fyddai'r cyfarwyddwyr hyn yn cyfrannu at y drafodaeth o dan yr eitem hon.		
2 Ymddiheuriadau	2.1. Nodwyd y derbyniwyd ymddiheuriadau gan Jacqui Hare (Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch), Helen Marshall (Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch), Gareth Pierce (Cyfarwyddwr Annibynnol), Dr Hefin Jones (Cyfarwyddwr yn cynrychioli Staff Academaidd), a Lisa Newberry, Addysg Uwch Cymru (Sylwedydd).		
3 Derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Hydref 2011	3.1. Nodwyd yr angen i ychwanegu o dan eitem 9.1.4. fod y Bwrdd wedi cytuno i sefydlu Pwyllgor Cydnabyddiaeth. 3.2. Cymeradwywyd y cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod, yn amodol ar ychwanegu'r pwynt a nodir yn 3.1. uchod. 3.3. Cytunwyd i gyflwyno'r cofnodion eto yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd, gan ddelio â materion sydd angen sylw buan yn unig yn y cyfarfod hwn.	GS i ddiwygio'r cofnod.	Ar unwaith.
4 Materion yn codi	4.1. <u>Bwrdd Academaidd y Coleg</u>: Nodwyd y cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Bwrdd Academaidd ar 23 Tachwedd, gyda'r prif nod o		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	gytuno ar fframwaith ar gyfer strategaeth academaidd y Coleg. Nodwyd y cafwyd trafodaeth eang a sylweddol ar yr amrywiol faterion a oedd i'w hystyried wrth lunio strategaeth o'r fath, ac yn dilyn y drafodaeth cytunwyd ar gyfres o egwyddorion a fyddai'n sail i strategaeth academaidd y Coleg. Nodwyd y byddai swyddogion y Coleg yn mynd ati i lunio strategaeth drafft yn seiliedig ar yr egwyddorion hyn, erbyn dechrau mis Ionawr, fel bod modd cynnal trafodaeth lawn ar y drafft yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Academaidd ar 1 Chwefror 2012. Nodwyd y byddai drafft pellach o'r strategaeth yn cael ei gyflwyno i ystyriaeth y cyfarwyddwyr yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd, ar 29 Chwefror 2012. 4.2. <u>Materion Staffio:</u> Yn dilyn y drafodaeth yn y cyfarfod ar 17 Hydref ar faterion yn gysylltiedig â chyflogaeth staff y Coleg, nodwyd fod Ymgynghorydd Adnoddau Dynol y Coleg wedi argymell y dylid sefydlu Pwyllgor Staffio, yn cynnwys y Cadeirydd, un neu ddau Gyfarwyddwr arall, y Prif Weithredwr (oni bai fod materion perthynol i gyflogaeth y Prif Weithredwr yn cael eu trafod) a'r Ymgynghorydd Adnoddau Dynol. Nodwyd y byddai'r Pwyllgor Staffio yn gyfrifol am adrodd i'r Bwrdd ar unrhyw faterion a fyddai angen dwyn i'w sylw. 4.2.1. Yn unol â'r argymhelliad, cytunwyd y dylid sefydlu Pwyllgor Staffio, a chytunwyd y dylid rhoi'r awdurdod i'r Cadeirydd wahodd un neu ddau o aelodau'r Bwrdd i weithredu ar y Pwyllgor. 4.3. <u>Materion Cyllid</u>: Yn unol ag argymhellion y Bwrdd yn y cyfarfod ar 17 Hydref, nodwyd fod y Pwyllgor Archwilio wedi trafod a chymeradwyo polisi cronfeydd wrth gefn ar gyfer y Coleg ar fore'r cyfarfod.	Sefydlu Pwyllgor Staffio	Ar unwaith.

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	4.4. <u>Cynllun Strategol y Coleg:</u> Nodwyd fod y Cynllun terfynol wedi ei gylchredeg yn sgil derbyn sylwadau pellach ar y ddogfen ddrafft, ac yn dilyn trafodaeth â swyddogion HEFCW. Nodwyd y byddai'r Coleg yn cyflwyno'r Cynllun Strategol i HEFCW yn ddiweddarach yn yr wythnos, a nodwyd y byddai'r Cynllun yn cael ei gyhoeddi yn Ionawr 2012. 4.5. <u>Cynllun Staffio Academaidd:</u> Yn dilyn y drafodaeth yn y cyfarfod ar 17 Hydref (Eitem 21.3), adroddwyd fod y Coleg wedi cytuno â Phrifysgol Bangor ar gynllun llawn ar gyfer y swydd mewn Gwyddorau Cymdeithas. 4.5.1. Mewn perthynas â Chynllun Staffio Academaidd 2012/13 , yn dilyn llwyddiant y swydd ym maes Hanesyddiaeth a'r drafodaeth yn y cyfarfod ar 17 Hydref ar arbrofi ymhellach gyda'r model hwn yn 2012/13 gyda swydd ym maes Athroniaeth (Eitem 21.4), gofynnwyd am gytundeb y Bwrdd i gymeradwyo'r argymhelliad i greu swydd gan ddilyn model tebyg ym maes Athroniaeth drwy Gynllun Staffio 2012/13. Cymeradwyodd y Bwrdd yr argymhelliad.	Argymhelliad i'w weithredu.	Ar unwaith
5 Gohebiaeth	5.1. Nid oedd unrhyw ohebiaeth i'w nodi.		
6 Derbyn ac ystyried Cyfrifon Archwiliedig y Coleg ar gyfer y cyfnod hyd at 31 Gorffennaf 2011, ynghyd ag Adroddiad y Pwyllgor Archwilio	6.1. Cafwyd adroddiad gan Geraint James (GJ), Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio, ar gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar fore'r cyfarfod. Nodwyd fod dau swyddog o *PricewaterhouseCoopers*, Archwilwyr Allanol y Coleg, yn bresennol yn y cyfarfod. Nodwyd y cafwyd cyflwyniad i'r Cyfrifon Archwiliedig, ac yn dilyn trafodaeth cytunwyd ar rai man newidiadau a chywiriadau a oedd i'w gwneud cyn cadarnhau'r fersiwn terfynol. Nodwyd, er gwybodaeth, y byddai ffurf y cyfrifon yn cael ei ddiwygio ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, yn unol â statws y Coleg fel elusen yn dilyn ei gofrestriad yn Awst 2011.		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	6.2. Nodwyd argymhelliad y Pwyllgor Archwilio i dderbyn a chymeradwyo'r cyfrifon. 6.3. Yn amodol ar un cywiriad testunol i'r cyfrifon, cymeradwywyd y cyfrifon yn ffurfiol gan y Bwrdd.	Archwilwyr y Coleg i gywiro'r testun yn unol ag argymhellion y Bwrdd. Cyfrifon diwygiedig i'w cadarnhau fel Cyfrifon Archwiliedig swyddogol y Coleg ar y cyfnod hyd at 31 Gorffennaf 2011.	Ar unwaith. Ar unwaith, yn dilyn cywiro'r testun.
7 Derbyn ac ystyried argymhellion ar ddyfarniadau o'r Cynllun Staffio Academaidd a'r Cynllun Ysgoloriaethau Ymchwil	7.1. Wrth gyflwyno'r eitem, nodwyd gair o ddiolch i aelodau'r panel ymgynghorol ar ddyfarniadau o'r Cynllun Staffio Academaidd a'r Cynllun Ysgoloriaethau Ymchwil 2012/13. 7.2. Nodwyd y derbyniwyd 48 o geisiadau am swyddi i'w cyllido drwy'r Cynllun Staffio Academaidd, a derbyniwyd 16 o geisiadau i'r Cynllun Ysgoloriaethau Ymchwil. 7.3. Nodwyd fod y panel ymgynghorol wedi rhoddi ystyriaeth ofalus i'r holl geisiadau a ddaeth i law, a nodwyd fod yr argymhellion a gylchredwyd i'r cyfarwyddwyr cyn y cyfarfod wedi eu cyflwyno gan y panel, gyda'r amod y cynhelir trafodaethau llawn a manwl rhwng swyddogion y Coleg a'r sefydliadau er mwyn datrys rhai materion a chwestiynau a godwyd gan y panel. Nodwyd y byddai swyddogion y Coleg yn gohebu a'r sefydliadau yn unigol i drafod y materion hyn a nodi unrhyw amodau pellach ynghlwm â'r dyfarniadau cyn caniatáu unrhyw weithredu pellach gan y sefydliadau. 7.4. Gwahoddwyd y cyfarwyddwyr i ystyried argymhellion y panel ymgynghorol, a chymeradwyo cynnwys y cylchlythyr drafft a ddosbarthwyd cyn y cyfarfod.		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	7.5. Cymeradwywyd yr argymhellion yn ddiamod, a chymeradwywyd cynnwys y cylchlythyr a'r bwriad i'w ryddhau ar 14 Rhagfyr.		
8 Cadarnhau enwebiad ar gyfer Cadeirydd y Pwyllgor Penodiadau (adroddiad llafar)	8.1. Adroddodd y Cadeirydd fod Meirion Prys Jones, Prif Weithredwr, Bwrdd yr Iaith Gymraeg, wedi derbyn y gwahoddiad i weithredu fel cadeirydd allanol y Pwyllgor Penodiadau. Gwahoddwyd y Bwrdd i gymeradwyo'r penodiad, ac fe'i cymeradwywyd yn ddiamod. 8.2. Cadarnhawyd y bydd y Coleg yn penodi dau aelod arall i'r pwyllgor, yn unol â'r trefniadau a gytunwyd yn y cyfarfod diwethaf. 8.3. Cafwyd amlinelliad o'r broses ar gyfer penodi cyfarwyddwyr i'r pedwar safle a fyddai'n dod yn wag yng Nghyfarfod Blynyddol y Coleg ar 28 Chwefror 2012, yn unol â'r drefn a gytunwyd gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr ar 30 Mawrth 2011 ar gyfer stagro tymhorau cyfarwyddwyr mewn swydd. 8.3.1. Nodwyd y byddai'r drefn fel a ganlyn: (i) Cyfarwyddwyr o'r Sector Addysg Uwch – nodwyd fod Addysg Uwch Cymru wedi cytuno i ddarparu dau enwebiad o'r sector ar gyfer y ddau le a fydd yn dod yn wag ar y Bwrdd yn y Cyfarfod Blynyddol. (ii) Cyfarwyddwr Annibynnol – nodwyd y bydd y Coleg yn hysbysebu yn y wasg am yr un lle a fydd yn dod yn wag ar y Bwrdd yn y Cyfarfod Blynyddol. Cadarnhawyd y byddai gan y cyfarwyddwr annibynnol sy'n ymddeol yr hawl i ail-ymgeisio am ddau dymor pellach fel cyfarwyddwr. (iii) Cyfarwyddwr sy'n cynrychioli myfyrwyr – nodwyd y byddai Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru yn enwebu cyfarwyddwr		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	i gynrychioli myfyrwyr, drwy broses a bennir gan y corff hwnnw.		
9 Cadarnhau Penodiad Archwilwyr Mewnol	9.1. Cafwyd adroddiad gan GJ ar y broses a gynhaliwyd ar gyfer penodi Archwilwyr Mewnol. Adroddwyd yn fyr ar gynnwys y ceisiadau a ddaeth i law, a nodwyd fod y Pwyllgor Archwilio, yn dilyn trafodaeth, yn argymhell y dylid cynnal trafodaeth gyda'r cwmni a oedd yn rhagori o blith y ceisiadau er mwyn derbyn cadarnhad o allu'r cwmni i gynnig y gwasanaeth yn llawn drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn amodol ar dderbyn y cadarnhawyd hwnnw, a sicrhau fod y cwmni dan sylw yn bodloni gofynion y Coleg, gofynnwyd i'r Bwrdd gymeradwyo'r argymhelliad i benodi'r cwmni. 9.2. Yn dilyn trafodaeth, cytunodd y cyfarwyddwyr i roddi caniatâd i'r Cadeirydd gymeradwyo penodiad y Cwmni, yn amodol ar dderbyn cadarnhad fod y cwmni'n bodloni'r gofynion uchod.	Swyddogion y Coleg i gynnal trafodaeth â'r cwmni dan sylw. Cadeirydd y Coleg i gymeradwyo penodiad y Cwmni, yn amodol ar dderbyn cadarnhad fod y cwmni'n bodloni'r gofynion a nodir.	Ar unwaith. Cyn gynted a phosibl.
10 Cytundeb Cyllido rhwng y Coleg a'r sefydliadau	10.1. Adroddwyd fod y Coleg bellach wedi derbyn drafft terfynol o'r Cytundeb Cyllido rhwng y Coleg a'r sefydliadau gan gyfreithwyr y Coleg. 10.2. Nodwyd y byddai'r Cytundebau yn dod i rym ar ddyddiad i'w gadarnhau yn 2012, a bydd y Cytundebau yn cael ei ddosbarthu i'r sefydliadau yn y flwyddyn newydd.		
11 Trefniadau Cyfarfod Blynyddol y Coleg, 28	11.1. Nodwyd y cynhelir Cyfarfod Blynyddol cyntaf y Coleg am 2.30 ddydd Mawrth, 28 Chwefror yn Abertawe (union leoliad i'w gadarnhau). Nodwyd y bwriedir cynnal seremoni anrhydeddu yn dilyn y cyfarfod, i ddechrau am 6.00 er mwyn urddo tri		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
Chwefror 2012	unigolyn sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i addysg uwch cyfrwng Cymraeg, yn 'Gymrodyr Er Anrhydedd'. 11.2. Cadarnhawyd ei bod yn ddisgwyliad i'r cyfarwyddwyr fynychu'r Cyfarfod Blynyddol.		
12 Unrhyw Fater Arall	12.1. Cyflwynwyd cais am eglurder ynghylch gallu sefydliadau Addysg Bellach sy'n derbyn cyllid uniongyrchol gan HEFCW i fod yn rhan o gynlluniau'r Coleg ac i fod yn gymwys i dderbyn cyllid o gronfeydd y Coleg. 12.1.1. Cytunwyd i gyfeirio'r mater i HEFCW, gyda chais am gadarnhad o'r sefyllfa cyn gynted â phosibl. 12.2. Adroddwyd, er gwybodaeth, fod y Coleg yn y broses o ffurfioli ei berthynas â nifer o gyrff a sefydliadau. Yn y cyd-destun hwn, nodwyd y cynhaliwyd cyfarfod diweddar rhwng swyddogion y Coleg a swyddogion Gwasg Prifysgol Cymru er mwyn trafod prosesau cyhoeddi'r Coleg. Nodwyd fod Gwasg Prifysgol Cymru wedi cyflwyno cytundeb drafft i'r Coleg, er mwyn ffurfioli perthynas y Coleg a'r Wasg. Cytunwyd i osod y mater ar agenda'r cyfarfod nesaf.	HEFCW i ddarparu cadarnhad o'r sefyllfa cyn gynted â phosibl. Mater i'w osod ar agenda'r cyfarfod nesaf.	Erbyn Chwefror 2012. 29 Chwefror 2012.
13 Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf	13.1. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 29 Chwefror, 2012 ym Mhrifysgol Abertawe.		

Derbyniwyd a chymeradwywyd y cofnodion yn ffurfiol yng nghyfarfod Bwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a gynhaliwyd ddydd Mercher, 29 Chwefror 2012, ym Mhrifysgol Abertawe.

Llofnod: Merfyn Jones .....

(Yr Athro R.Merfyn Jones, Cadeirydd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol)

Dyddiad: 29/2/12 .....